

*Rhaglen Genedlaethol
Hyfforddiant Mewn-swydd
y Gymraeg*

*Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg
Cyfnod Allweddol 3*

*Codi Safonau Llythrennedd
Dulliau o Gynnig Adborth i Godi
Safonau Ysgrifennu*

*Rhaglen Genedlaethol
Hyfforddiant Mewn-swydd
y Gymraeg*

*Agweddau ar Addysgu'r Gymraeg
Cyfnod Allweddol 3*

*Codi Safonau Llythrennedd
Dulliau o Gynnig Adborth i Godi
Safonau Ysgrifennu*

Argraffiad cyntaf Gorffennaf 2001

© Uned Iaith Genedlaethol Cymru

Cyhoeddwyd gan Uned Iaith Genedlaethol Cymru CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX

Mae Uned Iaith Genedlaethol Cymru yn rhan o WJEC/CBAC Cyf., cwmni a gyfyngir gan warant
ac a reolir gan awdurdodau unedol Cymru.

CYNABYDDIAETH

Paratowyd y pecyn hwn gan Weithgor Cenedlaethol y Cydlynwyr Uwchradd, Cymraeg:

Jane Cousins
Gloria Davies
Dafydd Evans
Elizabeth John
Llinos Jones
Meleri Jones
Llinos Lloyd
Annwen Morgan
Richard Roberts

Diolchir i'r ysgolion canlynol am eu parodrwydd i ddarparu enghreifftiau o waith disgyblion:

Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn
Ysgol Gyfun Bro Myrddin, Caerfyrddin
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Caerffili
Ysgol Glan Clwyd, Sir Ddinbych
Ysgol Gyfun Glan Taf, Caerdydd
Ysgol y Preseli, Sir Benfro
Ysgol Gyfun Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot

Dymuna Uned Iaith Genedlaethol Cymru CBAC gydnabod cefnogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac awdurdodau addysg Cymru.

CYFLWYNIAD

Mae sylwebyddion ym maes asesu ffurfiannol yn gytûn fod cynnig adborth i ddisgybl ar ei waith yn fodd i godi safonau.

Bwriad y pecyn hwn yw ystyried amryfal ddulliau o gynnig adborth i ddisgyblion er mwyn codi safonau gwaith ysgrifennu disgyblion Cyfnod Allweddol 3.

Rhennir y pecyn yn bedair Astudiaeth, sef: Rhesymoleg Cynnig Adborth i Ddisgyblion; Ysgrifennu Personol a Dychmygus; Cywain Gwybodaeth a Mynegi barn. Llunnir y pecyn ar ffurf gwersi enghreifftiol sy'n cynnwys enghreifftiau o waith disgyblion ac yn arddangos arfer dda gosod tasg ysgrifennu ynghyd â'r camau dilynol o gynnig adborth.


Pecyn rhyngweithiol ydyw yn cynnig cyfleoedd i athrawon ystyried yr enghreifftiau a gynigir ac i ymgymryd â thasgau ymarferol mewn sesiynau hyfforddi. Gellir defnyddio'r pecyn ar lefel sirol, clwstwr, ysgol gyfan neu'n annibynnol.

Cyhoeddir y pecyn hwn ar y Rhyngrwyd a gellir ei ddefnyddio ar lefel sirol/clwstwr, adrannol neu ar lefel annibynnol.

Richard Roberts
Hyfforddwr Ymynghorol

CYNNWYS

	Tudalen
Astudiaeth 1: Rhesymoleg Cynnig Adborth i Ddisgyblion	9
Astudiaeth 2: Ysgrifennu Personol a Dychmygus	10
Astudiaeth 3: Cywain Gwybodaeth	28
Astudiaeth 4: Mynegi Barn	45



ASTUDIAETH 1

Rhesymoleg Cynnig Adborth i Ddisgyblion

Darllenwch y dyfyniadau isod o waith Black a Wiliam (1998); ystyriwch hwy ac yna, mewn parau/grwpiau, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

" Feedback to any pupil should be about the particular qualities of his or her work, with advice on what he or she can do to improve ... "

" For formative assessment to be productive, pupils should be trained in self-assessment so that they can understand the main purposes of their learning and thereby grasp what they need to do to achieve."

"Opportunities for pupils to express their understanding should be designed into any piece of teaching, for this will initiate the interaction whereby formative assessment aids learning."

Ategir y dyfyniadau uchod yn yr adroddiad *Safonau ac Ansawdd mewn Ysgolion Uwchradd* (SPAEM, 1998).

" Nodwedd allweddol o arfer asesu dda yw darparu gwybodaeth yn effeithiol i ddisgyblion, yn ddyddiol, ynglŷn ag ansawdd eu gwaith. Mae hyn yn hwyluso'r dysgu ac yn galluogi'r disgyblion i wella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth."

Gweithgaredd

Mewn parau/grwpiau, atebwch y cwestiynau isod.

1. Pa ddulliau rydych chi'n eu defnyddio i gynnig adborth i ddisgyblion ar eu gwaith ysgrifennu?
2. Pa ddulliau hunanasesu rydych chi'n eu defnyddio? Eglurwch **sut** rydych yn eu defnyddio.
3. Sut rydych chi'n sicrhau fod pob disgybl yn cael cyfle i arddangos yr hyn mae'n ei ddeall?

ASTUDIAETH 2

Ysgrifennu Personol a Dychmygus: Blwyddyn 7

Cyflwyniad

Yn yr uned hon ceir cyfres o wersi ar y thema *Bwlio*. Y nod yw cyfoethogi geirfa trwy ddefnyddio cerdd "Y Bwli" (isod) yn symbyliad. Y cam cyntaf yw llunio disgrifiad o'r bwli a fydd yn arwain at ysgrifennu ymson person sy'n cael ei fwlio. Yn ystod y gwersi, rhoddir adborth ar lafar ac yn ysgrifenedig i godi safon gwaith y disgyblion.

Y BWLI

Rwyt ti'n lwcus
dy fod ti'n fwy na fi,
yr horwth hyll,
neu fe rown i gweir nad anghofit mono byth
i ti -
ti
a'th goesau cam
a'th lygaid croes.
Mae penelin dy drwyn
yn ddigon i godi dychryn
ar bob diawl
oddi yma i ben draw Iwerddon ac yn ôl
a'th gorff fel petai byddin fawr o filwyr
wedi bod yn tramp
tramp
trampio
dros bob modfedd sgwâr ohono.

Pe bawn i'n fwy
fe'th rwymwn di yng ngwe fy sbeit
a dawnsio'n llon o'th gwmpas.
Fe wnawn i bont ohonot
a cherdded drosot
dros yr afon
i nôl fy mhêl

O roeddet ti'n meddwl dy fod ti'n llanc
yn dwyn fy mhêl
a'i chicio yno
lle na fedraf fynd i'w nôl.
Ond aros di nes byddaf i yn enwog
am chwarae pêl ar hyd a lled y wlad!
Bydd pawb yn curo dwylo
ac yn gweiddi ar fy ôl pan af i heibio
a minnau'n chwerthin am dy ben,
yr horwth hyll,
yn union fel chwarddaist ti
wrth gicio mhêl i dros yr afon.
Ond rwyt ti'n fwy na fi
a rhaid imi fynd i chwarae efo Deio 'mrawd.

Gwynne Williams



Gwers 1

Dosbarth:	Blwyddyn 7
Gallu:	Cymysg
Thema:	Bwlio
Nod:	Cyfoethogi iaith ddisgrifiadol y disgyblion
Adnoddau:	Copi o gerdd "Y Bwli", Gwynne Williams, gweler <i>Gwreichion</i> a TASau 1995 Sgip Ansoddeiriau o <i>Camu 1</i> , tudalen 82 (Atodiad 1) Papur ysgrifennu

Rhagymadrodd

- Atgoffa'r disgyblion o gynnwys y gwersi blaenorol, e.e. gwylio rhannau o *Joni Jones* a gweithgareddau o *Dringor Ysgol*, h.y. gosod y thema bwlio yng nghyd-destun gwaith y tymor.
- Creu storm eiriau ar y bwrdd gwyn i ganfod pa eiriau y gellid eu defnyddio i ddisgrifio'r bwli yn *Joni Jones*.

Camau'r wers

- Cam 1** Rhannu copïau o'r gerdd "Y Bwli" a gofyn i'r disgyblion ddarllen y gerdd mewn paru a chasglu gwybodaeth am y bwli, e.e.
- sut mae'n edrych
 - personoliaeth
 - beth mae o/e'n ei wneud.
- Cam 2** Ysgrifennu pwyntiau ar bapur.
Athro/Athrawes yn cylchynnu i gynnal a monitro'r gwaith.
- Cam 3** Gofyn am adborth gan y disgyblion ac ysgrifennu ambell air/ansoddair ar y bwrdd gwyn.
- Cam 4** Athro/Athrawes yn gofyn: *Sut byddech chi'n disgrifio'r bwli?* ac yna rhannu'r daflen Sgip Ansoddeiriau a chynnal trafodaeth ddosbarth yn para dim mwy nag ychydig funudau.
- Cam 5** Disgyblion i ysgrifennu paragraff i ddisgrifio unrhyw fwli o'r ysgol, pentref, clwb ieuentid, teledu etc. gan gofio ystyried:
- sut mae'n edrych
 - personoliaeth
 - beth mae o/e'n ei wneud.
- Cam 6** Rhai disgyblion yn darllen eu gwaith i weddill y dosbarth/grŵp ac yn derbyn eu hymateb.
- Cam 7** Rhoi adborth ar lafar i'r disgyblion gan gynnig sylwadau ar y defnydd o ansoddeiriau, cyffelybiaethau a chymariaethau; trosiadau; amrywiaethau berfol etc.
- Cam 8** Tynnu sylw'r disgyblion at ambell enghraifft dda.
- Cam 9** Cloi'r wers – tynnu pethau ynghyd, tanlinellu'r hyn a ddysgwyd a dweud beth fydd ar waith yn y wers nesaf, sef defnyddio rhai o'r disgrifiadau i greu ymson a fydd yn disgrifio teimladau'r person sy'n cael ei fwlio.
- Cam 10** Gwaith cartref – meddwl sut mae person sy'n cael ei fwlio yn teimlo gan nodi eu teimladau ar bapur.

Gwers 2

Dosbarth: Blwyddyn 7
Gallu: Cymysg
Thema: Bwlio
Nod: Ysgrifennu Ymson
Adnoddau: Copi o'r gerdd *Y Bwli*
Enghraifft o ymson o *Fy Myd, Cyfres 2000*

Rhagymadrodd

- Holi'r disgyblion ynglŷn â'r gwaith cartref a thrwy hynny eu hatgoffa o'r wers flaenorol, sef dysgu sut i ddisgrifio bwli.
- Egluro beth yw nod y wers, sef defnyddio disgrifiadau o'r bwli mewn ymson, h.y. teimladau'r person sydd yn cael ei fwlio at y bwli.

Camau'r wers

- Cam 1** Rhannu copi o'r gerdd "Y Bwli" a gofyn iddynt chwilio am deimladau'r awdur, sef yr un sy'n cael ei fwlio.
- Cam 2** Disgyblion yn cynnig adborth i'r dosbarth cyfan ynglŷn â sut mae'r awdur yn teimlo tuag at y bwli a sut mae o/e'n ei ddisgrifio.
- Cam 3** Egluro nodweddion ymson; er enghraifft, mae ymson yn cynnwys:
- teimladau a meddyliau ar bapur
 - siarad hefo chi eich hun
 - meddwl yn uchel
 - ysgrifennu yn bennaf yn y presennol
 - iaith lafar/siarad
- hefyd, gweler *Fy Myd, Cyfres 2000*, Tudalen 51.
- Cam 4** Darllen enghraifft o ymson.
- Cam 5** Ysgrifennu'r Ymson: *Ysgrifennwch ymson unrhyw berson sy'n cael ei fwlio mewn unrhyw le*. Tra digwydd hyn, yr athro/athrawes yn rhoi cynhaliath i grwpiau/unigolion.
- Cam 6** Y dosbarth i glywed ambell enghraifft neu hyd yn oed gychwyn ambell un gyda gweddill y disgyblion a'r athro/athrawes yn ymateb.
- Cam 7** Cloi'r wers drwy atgoffa'r disgyblion o nodweddion ymson a gofyn iddynt orffen y gwaith gartref. Gofyn i'r disgyblion ystyried eu gwaith gan ddefnyddio'r daflen hunanasesu.
- Cam 8** Ar ôl derbyn y drafft cyntaf, mae angen rhoi adborth ysgrifenedig i'r disgyblion sydd yn nodi'r rhinweddau a'r hyn sydd angen ei wneud i wella'r gwaith (Gweler tudalennau 14 ac 15).

ATODIAD 1 SGIP ANSODDEIRIAU

yr hen bitsh
yr hen swigw
yr hen bilsan fach

Cartha dy glustie
Clyw ma!

Ca' dy lap
Ca' dy ben
Taw a dweud
Bydd dawel achan

Ei grasu
Ei sodro
Ei stido



Gei di gweir
Gei di grasfa
Gei di goten
Gei di sgwrfa

yr horwth hyll
Y mwnci mul llo
Y rocyn difaners
Y crwt penefer

yr hogan bowld
y groten haerllug
y roes ddigwilydd



y sgodyn
y mwlsyn
y ceit/y lembo
y rhacsyn

y rebel
y wali
y wimp
yr hwligan

GWEITHGAREDD

Ystyriwch yr enghreifftiau sy'n dilyn. Sylwch ar y modd y mae adborth adeiladol ar un math o ysgrifennu yn dylanwadu'n gadarnhaol ar waith Samantha mewn cyweiriau eraill (gweler isod). Mae Samantha hefyd wedi derbyn y daflen hunanasesu (gweler tudalen 15) sy'n rhoi'r cyfle iddi adlewyrchu ar ei gwaith. Gellid defnyddio taflenni o'r fath wrth i barau o ddisgyblion asesu gwaith ei gilydd. Tasg gyntaf Cai yw ysgrifennu drafft o ymson y sawl sy'n cael ei fwlio (tudalennau 18 ac 19). Mae'n aildrafftio'r ymson (tudalennau 20 ac 21) yn sgil adborth yr athrawes sy'n arwain at godi safon ei waith.

WALLS

② Y Bwli

Mae gan y bwli^o llygaid croes a Coesau gam ac yn cerdded fel mae gan o fraenog o dan ei freichiau. Mae y bwli yn cas ac yn greulon wrth bobd eraill. Mae'r bwli yn hylt. Mae ganddo^o peredlin dawyn ac mae yn dychryn pawb i ffurdd. Ac hefyd mae'n cerdded fel mihur ddion jist fel mae gan o droenog o dan ei breichia y. Mae'n orlog ac mae'n ein dawyn iel a chicio hi dros yr afori. Hefyd mae o'n bosio pawb o gumpas ac yn ei meddwol bod o'n smart iawn ac yn feddwol bod o'n gryf iawn hefyd.

Dyma ynddech dala i ddisgrifio'r bwli.
Rwyf yn defnyddio cymharieith dda drwy ddarparu ei fod 'yn cerdded fel mihur', ac 'fel petai ganddo droenog dan ei freichiau'.
(Doedd dim angen ei ail adrodd, o hynny.)

Cetwa amgwis dy fraudddegan y tra nesaf yn lle bod gormod yn dechrau ifo Mae.

TAFLEN HUNANASESU

Ydy'ch disgrifiad chi o'r bwli yn cynnig:

ansoddeiriau da?

darlun byw o'r bwli?

cyffelybiaeth/au?

trosiad/au?

brawddegau gwahanol?

Oedd hwn yn ddisgrifiad da o'r bwli yn eich barn chi? Pam?

Sut byddech chi'n gwella'r disgrifiad?

Zsamartha
Jones 2.7.18

Ymaon.

Person sijn cael ei fwllo.

(4)

Dw'n ofni mynd i'r ysgol heddiw, ar ol cael fy mudiol ddoe, mae fy nghofn i yn dal i miho fi, a mae gen i glais ar fy nghoes. Pwyf yn ofni'r bwli mawr na sijn watsiad fi bob mornod yr dydd. Dwyf i'n metru mynd i'r ystafell Gymraeg i gael fy ngwers i, just rhag ofn mae Bob yna y fwllo dydw i ddim eisiau mynd allan chwaith neu fydd yr bwli yn bwlio fi eto. O fy mher i, poen mawr ydi o neu gallo fod yn cur yn fy mher, ond beth bynnag mae o'n dal yn fy miho fi. Mae gen i lygaid du a un dant ar gal, rwyf mewn poen mawr, pan rydw i yn gweld y bwli na nai ladd o neu wneud yr un peth mae o wedi wneud i fi. Dydw i heb fynd i gwyno at yr athrawon eto, ond nai i oherwydd mae'n fwllo mawr hyl. Dydi o ddim yn pige ar unhyw un arall ond y fi. Beth sijn bod amafis dydw i ddim yn fuch nac yn gwan chwaith, felly dydw i ddim yn gwybod beth sijn fod amaf. Does neb yn holfi fi, does ganddo ddim ffandiau ond ei hun.

Dydw i ddim yn gwybod faint iwi ei oed ond mae o'n fwy na fi ac weithiau dwi eisiau dweud wrtho Pigo ar wryn yr un maint a chi a ddim plant fel fi. Ond dw'n ofnes y bydd o'n fwllo fi eto, felly wna'i ddim dweud hynny.

Si 1p.

Yfndrech dda eto. Dda iawn ti!

Rwyf wedi deall ffurf yr ymson ac yn dargos
dy deimladan & dda.

Er mwyn gwella - 1. cofia am y disgrifiadau acell ger
ti at bwrdd yr y darn cyntaf.
e.e. fel milar.

2. cofia am rai disgrifiadau allan
o'r gwedd efallai e.e. yr honnith byll.

Can Ab Arfon 7 Rhoda/Banwen

6

11

①
Yswath Dordmuth

Pymthegfed o Fet

Bwli.

Mae gan y bwli hen man iawn ac mae ganddo
glustiau anferthol. Hefyd mae ganddo wallt blŷr
da sy'n debyg iawn i waelod mop golchi. Fel ei
hen, mae ei drwyn yn fain ac yn firiog. Mae
(hys) ganddo lygaid cam ac mae un yn frown ac
un yn (frown) frown gydag ychydig o wyrdd.
da Hen un bach yngor bwli ond mae ganddo
gorff fel tarw! A dyna sut yr ydych chi'n ei ofri
o. Rob diwnod mi fyddai yn dod i'w dwy bunt
chwe deg ceiniog i'w ysgol oherwydd mae'r
bwli pob diwnod yn gofyn am fy mhŷs cinio
i, sydd yn un bunt tri deg ceiniog felly mi
ydych chi'n rhoi hanner y ddwy bunt chwe deg
iddo sydd yn fy ngadael i gyda un bunt
tri deg a digon i mi gael cinio.

Mae'r bwli yn un dau wnebyg hefyd
oherwydd mi welais i o gyda fy llygaid
fy hen yn siarod gyda Mathew Jones yn glên i
gysgu (fydd) i'w dweud wrth ei ffrind
bod Mathew yn hen howth hyl, ond beth wnaeth
fy nychn i'w oedol bod Mathew yn un o ffrindiau
penaf y bwli.

Rob diwnod mi fyddai tei y bwli yn gam i gyf
o'r botwm top yn agored. Hefyd mae ganddo dwm i
faint o dyllau yn ei siarid las tywyll. Mae ei esgidiau
(KICKERS) kickers' wedi eu rhaliu yn y tu blaen ac
hefyd mae ganddo dyllau ar ochrau ei esgidiau.
(*) Mae ei sawn du yn guthio ei ffordd trwy'r tyllau
Mae ganddo dwll (*) (te) yn ei droswys, ac yn ochr
chwth/moer twll ac mi fedwch chi weld ei ben
glin yn glir trwy'r twll mawr yn ei droswys

dyrnw S Mae'r bwli yn hen un blin a (^{châr} ~~cas~~) ofradwyr (~~cas~~) hefyd. Mae o hefyd yn rhegi ac yn dymio plant ac yn cicio plant sy'n fengach naq o. Un digon (~~diggydd~~) diggyddol ydy'r bwli hefyd. Mae o hefyd yn poeri ond nid ar y llawr ond ar blant hefyd. Pob diwrnod mae o yn bygwth plant blewddyn saith a byntau yn blewddyn deg. Hefyd mae o'n dymn ac yn dered calwyddau. Hefyd Mae'r bwli yn mynydd (~~gwy~~) prês a pethon eraill hefyd gan blant fengach naq o.

Da iawn Dai.

Am
 17/9/98

Dyma ddisgrifiad da o fwli. Rwyf wedi defnyddio sawl ansoddair da. ✓

Targedau ar gyfer ail straff:

- 1) Mae'r rhan fwyaf o'r brawddegau yn gychwyn efo MAE - oes ffyrdd eraill o gychwyn brawddeg?
 y dang nesaf
- 2) Mewn ymson mae angen sôn mwy am dy deimladau | sut rwyf yn teimlo gan gafio nodw llawr o'r disgrifiadau.

Rian Ab
Lefon
7 Rhoda/
Branwen.

13

(6)

Ysraith Aoslarth

Ail ar byrtheg a fedi

Ysaron.

O! dwi isio ei ladd o ond os ydw i yn gwend, fi fuasai yn cael y lai.

Dwi isio ei gicio â'i ddyddu nes mae o yn ymbil i mi stopio, ond wran ddim stopio mi ddalia i dymu â'i gicio.

Dyma fo eto yn dod i nôl fy mhres cinio.

"RHO DY BRÉS CINIIO I FI RWAN YR 'FORM ONEAR' BACH!"

O wel mi fydd ddaid i mi fynd at fy rhwtor i fenthys arian unwaith eto.

Dwi isio dweud wrth yw athro bod o yn fy mwlio i ond fedrai delio achos mae wedi fy myguoth i, os ydw i yn dweud mae o am fy lladd i. Ond mae o wedi mynd a fy mhres i. O na! dyma fo yn dod yn ôl dwi isio mynd adref a symud i fyw o'r pentref dreue yma.

"DWI YN MEDDWL HI AB AREFON OS YDW I YN CLYWED DY FOD DI WEDI ACHWYN ARNA I MI FYDDI DI YN BRINGIG DALLT! Y 'FORM ONEAR' DREWI!"

Dwi isio tynnu fy rhei a'i grogu pan mae o yn troi rownd nes mae o'n mynd yn goch, wedyn piws. Yr uffar bach iddo. Mi fuasai i'n hysio na fi fuasai'r lwli ac yn ei fwlio fo.

Dwi isio rhwygo siaced led o ddu y pen wyf bach â'i stoffio lawr y toilet a tynnu'r tsiaen.

Mae gen i deimlad yn fy ngruen i dymu ei wallt sydd yn debyg iawn i waledrop golchi â'i foeli o'r wallt i gyd. Mae o yn dod yn ei ôl o na! mae'n chad bod fi wedi siarad yn uchel yn lle dweud yn fy mhen.

"BETH DDYWEDAIS DI YR UFFAR BACH!!!"

mae o yn fy nghicio i Ah! mae hyn yn lofro ond dychw i ddim am groo achos fydd pawb yn chwethin

12. 15

row by mhen.

"DWE WEDI CAEL DIGON ARNATI MET"

Dywedais â'i ddigonau reit yn ei drwyn.
Y Diwedd.

Apheladun ar Ynion Cai

Ymdeith awdderchog. 'Rwyf yn awduos wedi deall
ffurf yr Ynion.

Flugldeust i ddiagnosis dy deimledau h dda.


Efallai dy ffordd yn defnyddio'r ffordd
'dwi i'w' yn my awl.

Ar gyfer y drafft newb ceisiau rdi darlun may
bydd st bwl' ddy

- gynnwys may st diagnosisu st bwl
sedd gwrth yn y darn gyntaf e.e. corb
fel taw, dawl ynnebog.

- defnyddio may o ffordd i ddiagnosis
yn hysp naet bwl' yn ei awdu i'w

Mechr. celyst ar y gwild unwaith eto i
gwel syriantau.



GWEITHGAREDD

Rhannwch yn grwpiau – pob grŵp i ystyried enghraifft wahanol.

- Edrychwch ar yr enghreifftiau canlynol gan ystyried y dasg a roddwyd i'r disgyblion sef:
 - darllen ac ymateb i'r gerdd
 - llunio disgrifiad o unrhyw fwli
 - llunio ymson person sy'n cael ei fwlio.
- Nodwch ym mha fodd y byddai'n bosibl i ddisgyblion godi safon y gwaith.
- Pa ganllawiau fydddech chi'n eu rhoi iddynt?
- Efallai y byddwch yn ystyried:
 - cynnwys
 - disgrifiadau da/byw
 - ffurf ac ieithwedd
 - cywirdeb iaith.
- Lluniwch daflen/grid hunanasesu a thargedau ar gyfer y disgyblion.

Y Bwli

Mae bwl i yr ein ysgol ni, Mae'n cos a blin,
yr fawr a taw a holl. Mae'n gryfach a mwy
na fi felly dydd i ddim yr gallu paffio yr d
Mae o yr fawr a plastydd. Mae o hys
colsam cam llygaid croes a perlin dy ddyrn.
Mae'n cicio fy mel droo y wat a pwnedio,
Cicio a pwsio fi byraf yn hoff. lladd o ond yd
i ry wan a bach

Ymson person sy'n cael ei fudio

Rydw i yn corau y bwl mae o yr gureud
im deintlon sal a hysyd weithian rydw i teimlo
does dim point i fwr. Mae on gureud fin drist
a anhapus. Mae o yr mynd or fy nerfau byra
fi yr gallu ffurysdro a ei lladd. Ond mae o yr
fawr a cryf a rydw i yn fawr a gwan. Pam
dw i'n cyneud adref dw i teimlon hapus boaf ond
rydw i'n cofio mae'n rhaid imi fynd i ysgol yfory

Gareth Evans

gall

Y Bwli

Mae o'n fawr, yn llawer mwy na fi. Ond rydw i yn llwyr mwy hant na fo, mae o yn hysgu, ei caescu cam i, drwy hysgu sy'n ddigon i gati a'r pabu. Mae ei goff yn fawr ac hysgu fel hysgu neuon byddin Rhufeiniaid. Ei hysguidd wna yn goffen ei wiryad hysgu yn ddarlun fel hysgu Picasso. Os bydd yn fwy na fo mi fydd yn ei actael neuon baw a sathru drosto.

Bob tro mwy'n ei weld mae'n aros o ddiwyd. Mae'n meddwl ei fod yn dda, yn llawer, yn frenis a tyngsog. Hant gorsgiddig. Ond dydi o ddim. Hysgu hysgu tew, hysgu a diog ydi o go iawn yn mabo dim am neb ond aros i hysgu. Mae ganddo dnyto klawr iawn, mae'n drwy ar bob cyfle. Os bydd yn y hysgu mi fydd yn ei ddiwyd yn y carchar am bydd.

Dim dnyd'r diwyd mae o'n waelth yn ei fy mbel i pendan'r cae dda afor. Lle fedda neb ei nol i goael. Mae ei chwethinied mor ddwy ac un gwrach ac hysgu am fy mbel.

Ynnon person sy'n cael ei furlio

O dwi'n starfio, doeth dim purat byddu breuast, mi fyddu. wedi bod yn sal ar ei ddi, mae nhw yn fy wneud yn sal. Diarned braf ond dyddu i ddim am fyddu allan i chwarae, dim ffirindieu ac cael fy mthwlio wari. Ofn casinet, rydw i eisieu dial amyn nhw ond wari. Y prawn yma rydw i yn fford dnydus fy mthwlio, rydw i yn meddwl ei fod yn dda ond chwethin wari nhw y bwli's mawr tew. Ond can fy llygaid a breuddwydio. Breuddwydio am ysgol hysgu dim bwli's a phawd yn fy hysgu. Lle na yddu ym fford aros mawr un cornel fexhan. fy hysgu, Ac yma yn salo y bwli's a hysgu neuon carchar ysgol. Ond weth ydi'r byddu i mi breuddwydio, breuddwydio yn unig ydi o.

M 20

13 Hydref 98

Diagrifiad o'r bwl

Mae y bwl yn dew dreullyn ac mae ganddo fo goebau cam. Os buawn i yn fwy na fo buawn fo ddim yn gollygydd fy muris, ac mae gan ddy fo llygid croes. Buasai geni ofri os bydd na bwl fel na yn fy ysgol i. Mae y bwl yn taro rhywun ar ei drwyn ac nath o dweud os neith o fy nharo i nai fynd i hincain ac yn a. Mae y bwl wedi cicio pwl rhywun ac mhi welaio y bel byth eto, ac mae o yn cerdded fel petai ganddo fo ddreunog o dan ei breichiau.

Person swn cael ei fwl

O beth nai wneud? Mae'r bwl yma unwaith eto. Poedd hi'n ddwrnod drwg ddae. Lybeithio bydd on ddwrnod gwel yfory rydw i yn llawn o eisiau a tomad cas geni o. Mae o yn min a cas. Mae o yn fawr ac yn tew ac dwi ond yn derau ac yn fach. Doeddwn ddim eisiau dweud with mam neu neith mam ddaed i'r ysgol ac gwneud ffyo mawr. A diamond i fi gmo ond wnes i ddim ac teimlais yn trist ac mae fy nghalon wedi torri. Erbyn hyn dwi yn llawn o greithiau.

13/10/98

Amad Elizabeth Gunther

①

Disgrifiad o'r bwlh

Mae'r bwlh yn greilion ac yn gof.

Mae'n edrych sŷel gorila a roedd o wedi
cicio fel, enath.

Mae pawb yn agnus pan gwelant mawr a

mae on tew sŷel naohyn cwt a mae on

gomyau a mae gan ^{ada} llygaid croes a mae
perch ei drwyn yn tew

②

ymson person sy'n cael ei gulo ^{13/10/98}

Mae mam yn dweid fawd a Cymryd Sŷlar
ar na go bwlh sŷar mawr tew ond fyddw i
yn agnus isyd i'r ysgob. oeth i'r cicio sŷ a
fyddw i yn cael deisian a sŷy caws mae an
dweid bad sŷ yn tew a yn bwyta rhy gormod
o bwyd a oedd o wedi rhain pwrrio a oedd
in gwadi y didd nesaf oedd o wedi rhai
taliadan an a sŷy llygand ond oedd in
gweth gida graith

ASTUDIAETH 3

Cywain Gwybodaeth: Blwyddyn 8

Cyflwyniad

Mae'r Astudiaeth hon yn cynnig camau i ysgogi disgyblion gywain gwybodaeth yn drefnus.

Nod ieithyddol y dasg yw sicrhau eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd amrywio brawddegau a defnyddio ffurfiau gorffennol y ferf.

Mae'r gweithgareddau yn yr astudiaeth hon ar ffurf uned addysgu a all gwmpasu sawl gwers.

UNED ADDYSGU

Dosbarth:	Blwyddyn 8
Gallu:	Cymysg
Thema:	Pethau Rhyfedd
Nod:	Cywain gwybodaeth berthnasol Crynhoi gwybodaeth
Iaith:	Amrywio brawddegau Berfau cryno yn y gorffennol
Adnoddau:	Copi o'r cylchgrawn 14 Taflen fframiau gwybodaeth Taflen wybodaeth am Tutankhamun Taflen iaith – brawddegau a berfau amrywiol Cyfrifiadur/on – dylid addysgu'r disgyblion i ddefnyddio'r cyfrifiadur i ddrafftio ac ailddrafftio'u gwaith.

Camau'r uned addysgu

- Cam 1.** Darllen *Mae Rhywbeth yn y Dŵr, Cylchgrawn 14*, tudalen 8 (atodiad 1)
- Cam 2.** Llafar: trafod yr erthygl uchod mewn grwpiau gan ddefnyddio'r cwestiynau isod fel canllaw:
- Beth sydd wedi digwydd?
 - Ym mhle digwyddodd e?
 - Pryd?
 - I bwy digwyddodd e?
 - Sut?
- Cam 3.** Ysgrifennu (grŵp): *Rhowch yr wybodaeth yn y fframiau (Atodiad 2).*
- Cam 4.** Darllen darnau newydd s'yn cyflwyno gwybodaeth am ddigwyddiad arbennig, e.e. Tutankhamun (Atodiad 3).
- Cam 5.** Ysgrifennu - tynnu gwybodaeth berthnasol o'r darnau dan benawdau'r fframiau, sef: Beth? Ble? Pryd? Pwy? Sut? (Atodiad 2).
- Cam 6.** Cyflwyno taflen hunanasesu iaith (Atodiad 4).
- Cam 7.** Ysgrifennu: cywain yr wybodaeth berthnasol yn gryno a diddorol gan gofio amrywio'r berfau a'r patrymau brawddegol.
- Cam 8.** Hunanasesu: gofyn i'r disgyblion: *Ydych chi wedi cynnwys popeth yn eich gwaith? Ar ôl darllen eich gwaith eto, rhowch dic yn y blwch priodol, ar y daflen hunanasesu cynnwys (gweler isod).*

Beth?	<input type="checkbox"/>	Ble?	<input type="checkbox"/>
Pryd?	<input type="checkbox"/>	Pwy?	<input type="checkbox"/>
Sut?	<input type="checkbox"/>		

- Cam 9.** Rhowch y cyfarwyddyd canlynol i'r disgyblion: *Darllenwch waith eich partner. Defnyddiwch Atodiad 4. A yw wedi amrywio dechrau'r brawddegau? A ydyr berfau a ddefnyddiwyd yn yr amser gorffennol?*
- Cam 10.** Aseiad Athro: yr athro i edrych ar y cynnwys gan ganolbwyntio ar gywirdeb y berfau (Atodiad 5)
- Cam 11.** Ysgrifennu: disgyblion yn ailysgrifennu'r gwaith gan ymgorffori'r cywiriadau/gwelliannau - gellir defnyddio Taflen Ailddrafftio i gynnal y disgyblion (Atodiad 6).

MAE RHYWBETH YN Y DŴR

Nessi

Llyn mawr erwog yn yr Alban yw Loch Ness. Yn ôl yr hanes, dyma gartref yr anghenfil Nessi.



Sant Columbo oedd y person cyntaf i weld Nessi, yn y flwyddyn 565. Yn ôl yr hanes bu farw un o'i ffrindiau ar ôl cael ei gnoi gan yr anghenfil.

Mae tair mil o bobl yn dweud eu bod wedi gweld Nessi ers hynny!

Yn 1934 roedd Arthur Grant yn mynd ar ei foto-beic wrth ymyl y llyn. Yn sydyn gwelodd yr anghenfil yn croesi'r ffordd o'i flaen. Roedd ganddo goesau blaen bach ac roedd tuag ugain troedfedd o hyd.

Cafodd y llun enwocaf o Nessi ei dynnu gan R. K. Wilson yn 1934. Ond erbyn 1994 gwelodd pobl mai celwydd oedd y llun - llong danfor dagan yw'r Nessi hwn.



Mae sawl llun wedi eu tynnu erbyn hyn.

Mae rhai yn credu mai Nessi yw'r deinasor olaf. Os felly mae'n 65 miliwn mlwydd oed.

Tegi

Llyn ger y Baia yw Llyn Tegid. Yn ôl yr hanes, dyma gartref yr anghenfil Tegi.



Edward Hughes a Meyrick Lewis, dau bysgotwr, oedd y cyntaf i weld Tegi yn 1967. Yn ôl yr hanes cododd anghenfil mawr du allan o'r dŵr wrth eu hymyl. Roedd tonnau mawr ar wyneb y llyn ar ei ôl.

Mae nifer fawr o bobl wedi gweld Tegi er 1967.

Yn 1977 roedd Dewi Bowen, gofalwr y llyn, a'i ddau ffrind yn cael paned o de ger y llyn. Cododd rhywbeth mawr du, tebyg i grocodeil allan o'r llyn. Roedd tuag wyth troedfedd o hyd. Fe aeth y tri yn y car i'w ddilyn ond roedd wedi diflannu.

Cafodd un llun o Tegi ei dynnu. Llun a gafodd ei dynnu ar frys yw hwn. Etallai bod y dyn â'r camera wedi cael ofn!



Mae rhai yn credu mai morio neu ddyfrgi yw Tegi!

ATODIAD 2

CYFLWYNO GWYBODAETH

Pa fath o wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yma?

Beth sydd wedi digwydd?

Ble?

Pryd?

I bwy y digwyddodd?

Sut?

TACHWEDD 1, 1922
 Codi gyda'r wawr. Cyrhaedd y safle cyn i'r tywod ddechrau mynd yn boeth. Pawb wrth eu gwaith. Sŵn morthwylion yn atsein trwy'r Dyffryn. Cloddio cyn dipyn heddiw ond dim hwc. Dim llawer o galon i ddal ati ond alla i ddim rhoi'r gorau iddi nawr! Y gwres yn llethol. Lluch yn fy llygaid ac yn fy ngwedd. Tagu trwy'r dydd.

Dwn i ddim sut i sgrifennu hyn - mae fy llaw i'n crynu gymaint. Bore heddiw, pan gyrhaeddais i'r safle, roedd pob man yn dawel. Dim sŵn cloddio; dim sŵn siarad. Dim smic. Yna dyma Ali'r fforman yn rhedeg ata i. Roedd e wedi cynhyrfu. "Syr! Syr! Rydym ni wedi cael hyd i risiau yn y ddaear!" meddai. Fe fuon ni'n cloddio drwy'r dydd. Erbyn diwedd y prawn, roedden ni wedi cael hyd i 8 o risiau wedi eu torri yn y ddaear.
RWY'N METHU CREDU'R PETH!

Herald yr Aifft 23.11.22

Trysor Tutankhamun

Mae bedd Tutankhamun, y Pharaohanc, wedi cael ei ddarganfod — ac mae'n llawn o drosor.

Daeth yr archeolegwr, Howard Carter, a'i dîm o hyd i'r bedd yn Nyfryn y Brenhinoedd ger dinas Luxor yn hwyr bawn ddoe. Yn ôl yr hanes, hwn ydy darganfyddiad archeolegol pwysicaf y ganrif.

Roedd Howard Carter wedi bod yn chwilio am y bedd ers bron i ugain mlynedd. "Cael hyd i fedd Tutankhamun oedd breuddwyd mawr fy mywyd i," meddai neithiwr, "a hwn oedd fy nghylfe olaf i.


"Roeddem ni wedi cloddio pob rhan o'r Dyffryn ar wahân i un cornel bach wrth fynediad bedd y Pharo Rameses VI. Doedd neb wedi cloddio yno o'r blaen rhag tarfu ar fedd Rameses."

Ar ôl cael hyd i 16 o risiau serth yn arwain at ddrws o dan y ddaear, anfonodd Carter deligram at yr Arglwydd Carnarvon, sydd yn ariannu'r project. Arhosodd y tîm i'r Arglwydd Carnarvon deithio i Luxor o Loegr cyn bwrw ymlaen gyda'r gwaith.

Yn hwyr bawn ddoe, gwnaeth Howard Carter dwll bychan yn y drws a daliodd gannwyll drwyddo. Pan ofynnodd yr Arglwydd Carnarvon iddo a fedrai weld rhywbeth, ei ateb oedd: "Medraf. Pethau rhyfeddol!"

Yn y bedd roedd gorsedd, dodrefn, dillad, arfau, cistiau a llestri, y rhan fwyaf ohonynt yn aur pur, a gemau gwerthfawr. Yno helyd, wrth gwrs, roedd mymi Tutankhamun, mewn tair arch aur.

Roedd Tutankhamun yn byw 1,350 o flynyddoedd cyn Crist. Doedd neb wedi bod ar gyfyl ei fedd ers 3,300 o flynyddoedd.



ATODIAD 3 (parhad)

MELLTITH Y PHARO



'I'r sawi a darfo hedd y Pharo
Angau ddêl ar adain gyflym.'


'Mae yna sawl un yn credu ym 'Melltith y Pharo', wyddoch chi, ond i mi cyd-ddigwyddiad ydy'r cyfan.'

Dr Saleh el Khôli oedd yn siarad ac roeddem ni'n eistedd ym mar Gwesty'r Nil yng Nghairo. Roedd yn noson ferwedig o boeth a'r ddau ohonom yn sipian Campari a soda. Ar y pryd roeddwn yn gweithio i gwmni HTV ac yn yr Aifft yn gwneud ymchwil i'r posibiliadau o wneud rhaglen am 'Felltith y Pharo'.

Maen nhw'n dweud i'r felltith ladd dau ar hugain o'r bobl a oedd yn gysylltiedig ag agor bedd Tutankhamun, Pharo ifanc yr Aifft a fu farw dair mil a hanner o flynyddoedd yn ôl. Roedd rhai o'r marwolaethau hynny'n od iawn.

Fis yn ddiweddarach roedd Dr el Khôli yn gorff. Trawiad ar y galon a gafodd o meddai'r meddygon. Ond tybed?

Bu Dr el Khôli farw ar yr union ddiwrnod yr aflonyddwyd unwaith yn rhagor ar fwgwd aur Tutankhamun.



ATODIAD 4

Hunanasesu Iaith

Amrywio dechrau'r frawddeg

Peidiwch â dechrau pob brawddeg â *Roedd*.

Dysgwch amrywio dechrau eich brawddegau. Edrychwch ar yr enghreifftiau isod.

Roedd Howard Carter wedi mynd i Ddyffryn y Brenhinoedd.

Aeth Howard Carter i Ddyffryn y Brenhinoedd.

Roedd y tim yn aros i'r Arglwydd Caernarfon.

Arhosodd y tim i'r Arglwydd Caernarfon.

Roedd dodrefn yn y bedd.

Yn y bedd roedd dodrefn.

Berfau

Pan ydych chi'n ysgrifennu am rywbeth a ddigwyddodd flynyddoedd yn ôl, cofiwch ddefnyddio gorffennol y ferf.

Dyma enghreifftiau y gallwch eu defnyddio wrth ysgrifennu am Tutankhamun.

Credodd	Meddyliodd	Gwnaeth	Aeth	
Cafodd	Gwelodd	Dywedodd	Clywodd	Symudodd

Darganfu

ATODIAD 5

Daniel Williams

YSGOLY PRESELI

8/9/48

Beth sydd wedi digwydd?

Y mae pobl wedi gweld
anghenfil ^{o'r enw Nessi}, ac y mae rhai yn
wedi cael eu gwaig gorweddio fe.
Sant Columbo seidd y person
Cyntaf gybatol i weld yr
anghenfil ~~fe~~ un o freindiau
Sant Columbo gafodd eu gwai.

Gwelodd pobl belyd yr anghenfil
Tegi. Edward Hughes a
Meirick Lewis seidd y cyntaf
i'w weld

Ble?

Gwelodd yr anghenfil ^{Nessi} yn
hoch rias yn yr Alban.

Gwelodd yr anghenfil Tegi
yn dlyn Tegid ger y bala
yng Nghymru.

Pwy?

~~Nessi~~ Gwelwyd Nessi gyntaf
yn 565.

~~1934~~

~~1984~~ —

Gwelwyd Tegi gyntaf yn
1967.

I bwy a digwyddodd e?

Gwelodd —
Sant Columbo

Arthur Grant

RK Wilson — Nessi

Gwelodd
Edward Hughes

Meirick Lewis

a Dewi Bowen ^{o'i ddau ffwrn} — Tegi

Sut?

Roedd Arthur Grant
ar foto-beic pan
welodd yr
Anghemfil yn croesi
ffordd o'i flaen.

Roedd Cwsan blaen bach
ganddo ac roedd tua
ugain troedfedd o hyd.

Roedd Dewi Bowen o'i
ddau ffrind yn cael
paned o de ger y
llyn pan gododd
Rhysbeth nawr du
tebyg i grocdeil allan
ohono. Roedd tua
wyth troedfedd o hyd.

IAITH

TAFLEN AIL DDRAFFTIO

Ydych chi wedi amrywio dechrau'r brawddegau?

e.e.

Ar ôl ...

Efallai ...

Yn ôl ...

Yna ...

Roedd ...

Erbyn ...

Yn y ...

O'r diwedd ...

Yn ystod ...

Er ...

Pan ...

Ymhen ...

Ydych chi wedi defnyddio berfau yn y gorffennol?

e.e.

Aeth ...

Credodd ...

Cafodd ...

Meddyliodd ...

Gwelodd ...

Rhedodd ...

Clywodd ...

Symudodd ...

Dyweddodd ...

Gwnaeth ...

Sylwodd ...

Daeth ...

Sylwadau ar waith Disgybl 1

- Ar ddrafft cyntaf Disgybl 1, gwelir yn glir Gam 8, sef hunanasesu cynnwys.

Disgybl 1


(16)

Beth ✓	Ble ✓	Sut ✓
Prjd ✓	I bwy ✓	Llun ✓

-Teti?

Roedd bedd ~~Tutankhamun~~ gyda Howard
y Pharo wedi cael
ei agor gan
o archeolegywr ~~er~~ ^{ghomgh} ~~er~~ ^{naw}
Howard Carter o'r
22 o ~~helpwyr~~ ^{archeolegywr} eraill
Chwiliwyd Howard
Carter am y bedd
hon am nifer o
flynnyddoedd. Fe ~~cael~~ ^{cael}
ddarganfu ~~bedd~~ ^{bedd} y
bedd yn yr Aifft.
Tredwyd nifer o
bobl fod y Pharo
yn rhai melltitt
i'r pobl aeth

Carter i'r Aifft
i agor y bedd.
Ment yn credu
hyn gan fod
y 22 o bobl
yn cynnwys
Howard Carter
wedi marw.
Hefyd mae
digwyddiadau ^{oedd}
kann wedi
digwydd, er engra
yr oedd dyn or
erw. Dr et khôli
wedi marw yr un
ddydd ag agorwyd
y bedd.



GWEITHGAREDDAU PELLACH I GODI SAFONAU

Enghraifft o waith Disgybl 3

Dyma ail ddrafft Disgybl 3. Gellir gweld yma bod y disgybl wedi amrywio ei frawddegau ond yn anffodus nid yw hunanasesu'r cynnwys wedi bod yn llwyddiannus. Does dim sôn am pryd ac y mae'r cynnwys yn gymysglyd iawn. Pa gamau fydddech chi'n eu hawgrymu i alluogi'r disgybl godi safon ei waith?

Disgybl 3

Bedd Tutankhamun

